



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Cymru Iachach: Gwella tegwch trwy ddatblygu iechyd cynhwysiant

Glasbrint ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar anghenion ar gyfer iechyd cynhwysiant

Fersiwn 1.0

Comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

Karen Gully - Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol; Kerry Bailey – Ymgynghorydd Gofal Sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr is-adran Gofal Sylfaenol; Ayla Cosh, Cyfarwyddwr Iechyd Cynhwysiant, Caerdydd



Cynnwys

1 Cyflwyniad.....	3
2 Poblogaethau Cymwys	4
3 Gwerthoedd a Dull.....	5
4 Gofynion ar gyfer darparu gwasanaeth Cynhwysiant	5
4.1 Cofrestru a Chodio	5
4.2 Mynediad.....	5
5 Darpariaeth Gofal Iechyd	5
5.1 Egwyddorion Gofal	5
5.2 Agweddau Clinigol	6
6 Cofrestru a Throsglwyddo wedi'i Gynllunio I Wasanaethau Cyffredinol	7
7 Dull Partneriaeth	7
8 Addysg a Sigiliau Angenrheidiol.....	9
9 Llywodraethau Clinigol	9
10 Canlyniadau Gwasanaeth Allweddol / Safonau Archwiliadwy a Awgrymir gan Safonau'r Llywybr / Cyfadran:.....	9
11 Adolygiadau Gwasanaethau	12
Atodiad 1: Anghenion cymhleth sy'n gofyn am Ddarpariaeth Gwasanaethau Arbenigol a/neu Reoli Achosion Cymhleth	13
Atodiad 2: Pecyn Cymorth Hunanasesu Tegwch Iechyd ac Iechyd Cynhwysiant ar gyfer Gofal Sylfaenol.....	14
Atodiad 3: Codio Clinigol Gwasanaethau Iechyd Cynhwysiant.....	15
Atodiad 4: Adnoddau Gwasanaeth Iechyd Cynhwysiant.....	16
Atodiad 5: Dyfyniadau o ganllawiau NICE a'r Gyfadran Iechyd Cynhwysiant.....	17
Atodiad 6: Codau/disgrifiadau ar gyfer Digartrefedd	18
Atodiad 7: Geirfa.....	19



1 Cyflwyniad

1.1 Mae iechyd cynhwysiant yn gysyniad sy'n disgrifio gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pobl sy'n profi anfanteision lluosog difrifol sy'n gorgyffwrdd, sydd yn aml yn ei chael yn anodd cael mynediad at ofal iechyd er gwaethaf profi iechyd corfforol a meddyliol eithriadol o wael o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

1.2 Dylai Gwasanaeth Cynhwysiant lleol gyfrannu at gynllun cyffredinol ar gyfer y boblogaeth sy'n ystyried y ddarpariaeth gyffredinol bresennol, angen lleol a'r opsiynau ar gyfer sut y gellir diwallu anghenion. Rhaid i gomisiynwyr sicrhau bod gwasanaethau cymorth priodol ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth a lle bo angen comisiynu cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau.

1.3 **Nod** y model Cynhwysiant yw nodi a diwallu anghenion pobl sydd wedi'u hallgáu'n draddodiadol o ofal sylfaenol prif ffrwd mewn dull seiliedig ar leoedd a helpu unigolion i integreiddio i wasanaethau Haen 1 cyffredinol pan fo'n briodol.

1.4 Bydd yr amser y mae unigolyn angen cymorth Gwasanaeth Cynhwysiant yn amrywio o berson i berson, ond mae'n bwysig bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer unigolion sydd wedi'u cofrestru i sicrhau eu bod yn derbyn gofal gan y gwasanaeth mwyaf priodol.

1.5 Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â disgwyliadau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru a chanllawiau'r DU gan gynnwys:


- [Cymru Iachach](#): Cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
- [Safonau Iechyd a Digartrefedd](#)
- [Canllawiau 2018](#) i Fyrddau Iechyd ar Iechyd a Lles Ceiswyr Lloches (i'w diweddarau'n fuan)
- [Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym](#): Canllawiau i Awdurdodau Lleol a Phartneriaid - Datblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022-2027
- [Canllaw NICE \[NG214\]](#): Trosolwg | Integrated health and social care for people experiencing homelessness | Canllaw | NICE

1.6 Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu cymorth ychwanegol y dylid ei ystyried sydd y tu hwnt i gwmpas gwasanaethau Haen 1 cyffredinol. Mae gan bob dinesydd yr hawl i gofrestru a chael eu hanghenion wedi'u cydnabod o fewn gwasanaethau cyffredinol, ond lle mae angen cymorth cymhleth efallai y bydd angen darpariaeth fwy arbenigol. Gweler [atodiad \(5\)](#) am ddisgrifiad o ddarpariaeth gwasanaethau cyffredinol/unedig. Mae tystiolaeth yn dangos y gall modelau gwasanaeth sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth gyda staff ymroddedig, clinigau galw heibio a gwasanaethau eraill ar y safe gyflawni canlyniadau gwell.

1.7 Nid oes unrhyw ran o'r canllawiau hyn, drwy gomisiwn, hepgoriad neu oblygiad, yn diffinio nac yn aildiffinio gwasanaethau hanfodol neu ychwanegol.

1.8 Mewn meysydd o anghenion uchel a/neu gymhleth, gellir cyfuno darpariaeth gwasanaeth (haen 2 a haen 3) fel gwasanaeth 'arbenigol'. Rhaid i feini prawf mynediad ar gyfer y gwasanaeth a'r trefniadau ar gyfer pontio rhwng haenau cyffredinol (unedig), atodol ac arbenigol gael eu diffinio'n glir mewn cynlluniau lleol.

1.9 Wrth gynllunio modelau gwasanaeth, rhaid ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaeth y mae mynediad ar eu cyfer yn benderfynydd hollbwysig o'u gallu i gael budd o ofal. Bydd asesu anghenion y boblogaeth a mapio'r ddarpariaeth bresennol yn gamau allweddol yn natblygiad cynlluniau lleol priodol a chyflawniad gan yr holl bartneriaid.



Ffigur 1 Darpariaeth gofal iechyd yn gyffredinol (Haen 1), Haen 2 (canolradd) a Haen 3 (Gwasanaethau Iechyd Cynhwysiant Arbenigol) arfaethedig.

2 Poblogaethau Cymwys

2.1 Mae poblogaethau cymwys yn cynnwys pobl sydd ag anfanteision difrifol a lluosog, sy'n profi allgáu cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd:

- Pobl sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gynnwys:
 - Y rhai mewn llety dros dro ac ansefydlog,
 - Pobl ifanc neu'r rhai sy'n gadael gofal sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Pobl sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r system cyfiawnder troseddol.
- Pobl sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid, gweithwyr mudol bregus ac ymfudwyr heb eu dogfennu neu wedi'u masnachu.



- Pobl sy'n gwneud gwaith rhyw.
- Roma, Sipsiwn a Theithwyr.

Mae **Atodiad 1** yn disgrifio lle bydd anghenion mwy cymhleth yn y grwpiau hyn angen rheolaeth mewn gwasanaethau arbenigol neu unedig.

3 Gwerthoedd a Dull

- a. Person-ganolog, empathetig ac anfeirniadol.
- b. Parhad gofal gyda chysylltiadau parchus llawn ymddiriedaeth yn cael eu ffurfio.
- c. Gwasanaethau a gynlluniwyd i leihau rhwystrau i fynediad – allgymorth, hunan-atgyfeirio, trothwy isel, amseroedd apwyntiad hyblyg, siop un stop.
- d. Gofal ac amgylcheddau sydd wedi'i lywio gan seicoleg ac sy'n ystyriol o drawma.
- e. Sensitifrwydd diwylliannol.
- f. Archwilio mewnwelediadau 'byw'n dda' a dymuniadau'r claf gan hyrwyddo gwneud penderfyniadau ar y cyd.

4 Gofynion ar gyfer darparu gwasanaeth Cynhwysiant

4.1 Cofrestru a Chodio

4.2 Mynediad

- Trefniadau mynediad hyblyg i gleifion sy'n rhoi cyfle i wneud apwyntiadau drwy:
 - Ddod i'r dderbynfa
 - Rhif Ffôn
 - Gwefan
 - Gofalwyr/perthnasau i allu gwneud apwyntiadau ar ran y claf
 - Gweithiwr cymorth unigol (lle maent wedi cytuno ymlaen llaw).
- Mynediad hyblyg at apwyntiadau a gwasanaethau sy'n darparu:
 - Apwyntiadau galw i mewn
 - Apwyntiadau wedi'u trefnu
 - Agor yn hwyr os yw'n briodol
 - Amseroedd apwyntiad hirach i gyfrif am gymhlethdod, lleiafswm o 20 munud fesul claf
 - Allgymorth rhagweithiol a pharhaus.
- Defnyddio dulliau cyfathrebu yn seiliedig ar ddewisiadau'r person a rhoi gwybodaeth glir am gysylltiadau, apwyntiadau, nodiadau atgoffa ac ati.
- Rheoli'r rhai sy'n methu apwyntiadau/DNA (Heb fynychu) i gynnwys dilyniant rhagweithiol a chysylltu â gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â gofal.
- Dim camau cosbol neu 'dynnu oddi ar y rhestr' i'r rhai sy'n colli apwyntiadau'n aml.
- Darpariaeth allgymorth lle mae angen, er enghraifft hosteli digartrefedd, grwpiau cymunedol, swyddfeydd prawf.
- Argaeledd llywyr gofal neu reolwyr gofal i gynorthwyo lle bo'n briodol.

5 Darpariaeth Gofal Iechyd

5.1 Egwyddorion Gofal

- Gwasanaethau meddygol sylfaenol holistaidd i gynnwys atal, diagnosis a rheoli clefydau aciwt a chronig.



- Cynnig gofal gyda dull sy'n ystyriol o drawma ac sydd wedi'i lywio gan seicoleg yn seiliedig ar chwe egwyddor gofal sy'n ystyriol o drawma: diogelwch, ymddiriedaeth, cydweithredu, grymuso, ystyriaeth ddiwylliannol, a dewis.
- Gofal aml-gydran integredig wedi'i gefnogi gan dîm amlddisgyblaethol
- Cynnig gwasanaethau cyfieithu lle bo angen.
- Cymorth ychwanegol i bobl â llythrennedd isel.
- Ystyried cynnwys eiriolwr i gefnogi cyfathrebu.
- Amser wedi'i drefnu ar gyfer asesiad iechyd cychwynnol cynhwysfawr a arweinir gan nyrs o anghenion iechyd corfforol a meddyliol, cyflyrau aciwt a hirdymor gan gynnwys archwiliad sy'n briodol ar gyfer anghenion unigol. Archwiliadau sylfaenol gan gynnwys ar gyfer clefydau heintus a chronig gyda sgrinio priodol ac imiwneiddiadau i'w cynnig i bawb os nad ydynt wedi digwydd yn ddiweddar (gweler atodiadau 2+3 am offer asesu a chanllawiau codio).¹
- Amser wedi'i drefnu i glinigwyr fynychu cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol, strategaeth amddiffyn plant, diogelu oedolion a chyfarfodydd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) fel y bo'n briodol.
- Hyfforddiant a phrotocolau wedi'u sefydlu i gefnogi'r gwaith o adnabod ac atgyfeirio dioddefwyr masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern gan ddefnyddio dulliau cychwynnol sensitif sy'n arwain at atgyfeirio at sefydliadau 'ymatebwyr cyntaf' i'w hatgyfeirio i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.²
 - Cymhwyso Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) a darparu atgyfeiriad ar y safle neu bwrpasol i bwysau iach, y Rhaglen Atal Diabetes Genedlaethol a rhoi'r gorau i ysmegu fel y bo'n briodol.
 - Darparu mynediad at Bresgripsiynu Cymdeithasol yn unol â'r fframwaith cenedlaethol.
 - Adolygu anghenion, cryfderau a dyheadau'r person pryd bynnag y bydd ei amgylchiadau'n newid, neu pan fydd yn gofyn am adolygiad.
 - Staff clinigol i geisio cyngor ac atgyfeirio ymlaen at ofal arbenigol fel y bo'n briodol.

5.2 Agweddau Clinigol

- Cynnig sgrinio diogelu iechyd fel y bo'n briodol i'r unigolyn a'i sefyllfa (atodiadau 1 a 2). Gallai hyn gynnwys feirysau a gludir yn y gwared (BBV), heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STI), Twbercwlosis (TB) a sgrinio parasitig.
- Cynllun Gofal Iechyd integredig ar y cyd wedi'i ddogfennu o'r asesiad cychwynnol.
- Cwblhau a darparu imiwneiddiadau dal i fyny a rhaglenni blynyddol.
- Gwasanaethau Iechyd Rhywiol a chynllunio teulu ar y safle neu lwybrau pwrpasol atynt.
- Gofynion uwch:

² Argymhellir tua 1 awr i bawb gan gynnwys ceiswyr lloches sydd newydd gyrraedd neu ffoaduriaid nad ydynt wedi bod trwy asesiad iechyd cyn cael eu lleoli'n lleol gan y Swyddfa Gartref.

² Canllawiau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol:

<https://www.gov.uk/government/publications/human-trafficking-victims-referral-and-assessment-forms/guidance-on-the-national-referral-mechanism-for-potential-adult-victims-of-modern-slavery-england-and-wales#Section-9>



- Darparu brechiad Hepatitis B a Hepatitis A lle bo'n briodol,
- Darparu rhaglenni brechu iechyd y cyhoedd blynyddol.
- Dull rhagweithiol o ymgysylltu defnyddwyr gwasanaeth â rhaglenni sgrinio arferol fel sgrinio'r coluddyn, sgrinio serfigol, sgrinio'r fron.
- Gwasanaethau rheoli defnydd alcohol a sylweddau holistaidd.
- Dull rhagweithiol o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn strategaethau lleihau niwed.
- Presgripsiynu Triniaeth Amnewid Opioidau (os nad yw'n bresennol ar y safle, datblygu cysylltiadau di-dor a llwybrau pwrpasol ati) gyda chymorth iechyd meddwl cysylltiedig.
- Darparu mynediad at Bresgripsiynu Cymdeithasol yn unol â'r fframwaith cenedlaethol
- Adolygu anghenion, cryfderau a dyheadau'r person pryd bynnag y bydd ei amgylchiadau'n newid, neu pan fydd yn gofyn am adolygiad.
- Staff clinigol i geisio cyngor ac atgyfeirio ymlaen at ofal arbenigol fel y bo'n briodol.
- Timau aml-ddisgyblaethol rheolaidd gyda phawb sy'n ymwneud â gofal rheng flaen i gynnig cymorth iechyd a gofal cymdeithasol cofleidiol ac ymarfer myfyriol.

6 Cofrestru a Throsglwyddo wedi'i Gynllunio I Wasanaethau Cyffredinol

- Adolygiad blynyddol o bob unigolyn cofrestredig i sicrhau eu bod yn derbyn gofal gan wasanaeth â haenau priodol.
- Rhyddhau amserol o'r Gwasanaeth Iechyd Cynhwysiant i wasanaethau cyffredinol lle bo'n briodol.
- Crynodeb rhyddhau cynhwysfawr wedi'i gwblhau gydag unrhyw gamau gweithredu neu anghenion heb eu cwblhau wedi'u hamlygu. Rhannu'r ddogfen hon â'r practis GMS a'i lanlwytho i Borth Clinigol Cymru.
- Mynediad at gydlynwyr gofal/llywyr gofal/rhaglenni mentoriaid cymheiriaid i hwyluso cofrestru gyda GMS ac i gefnogi'r cyfnod 'ymgartrefu'.
- Argaeledd ar gyfer cyngor a derbyn trosglwyddiadau lle nad yw trosglwyddiadau i GMS wedi bod yn llwyddiannus neu'n barhaus.

7 Dull Partneriaeth

7.1 Datblygu cysylltiadau gwaith da gyda phartneriaid ym maes iechyd i ddarparu clinigau mewngymorth wedi'u cydleoli yn y practis yn ôl yr angen neu lwybrau atgyfeirio pwrpasol atynt a llinellau cyfathrebu hawdd:



- Gwasanaethau Cwnsela/Seicoleg
- Timau Iechyd Meddwl Cymunedol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol gan gynnwys gofal l'r rhai â straen ôl-drawmatig cymhleth
- Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- Gwasanaethau Clefydau Heintus gan gynnwys Twbercwlosis (TB)
- Iechyd rhywiol a chynllunio teulu
- Canolfannau atgyfeirio wedi ymosodiadau rhywiol
- Gwasanaeth gofal heb ei drefnu megis Unedau Argyfwng/Tu Allan i Oriau
- Gwasanaethau poen cronig
- Gwasanaethau Cyhyrsgerbydol
- Podiatreg
- Optometreg
- Deieteg
- Gofal Iechyd y Geg a Deintyddiaeth
- Iechyd Galwedigaethol
- Gwasanaethau ffisiotherapi sy'n ystyriol o drawma
- Gwasanaethau bydwreigiaeth
- Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd
- Cydweithio ag olrhain achosion, olrhain cyswllt, triniaeth gymunedol a mesurau Iechyd Cyhoeddus gan gynnwys TB, HIV, Hepatitis C
- Tîm Gofal Clwyfau
- Therapyddion lleferydd ac iaith
- Gwasanaethau Hybu Iechyd (rhoi'r gorau i ysmegu, pwysau iach ac ati)

7.2 Datblygu cysylltiadau gwaith da yn ddelfrydol wedi'u cydleoli mewn canolfannau aml-ganolbwynt gyda phartneriaid traws-sector sy'n darparu'r ystod lawn o gymorth Iechyd, budd-daliadau a thai. Os yn bosibl, darparu gwasanaethau mewngymorth ac allgymorth neu lwybrau atgyfeirio pwrpasol atynt a llinellau cyfathrebu hawdd:

- Gofal Cymdeithasol a Thai
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Cyngor ar Ddyled
- Cyngor cyfreithiol
- Cyngor ar Bopeth
- Y Swyddfa Gartref
- Darparwyr llety'r Swyddfa Gartref
- Y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf
- Heddlu
- Partneriaid trydydd sector priodol
- Cydnabod y gall fod gan wasanaethau statudol, trydydd

7.3 Ar gyfer pobl sy'n cael trafferth ymgysylltu â gwasanaethau, datblygu cynllun ymgysylltu hirdymor sy'n rhoi blaenoriaeth i feithrin ymddiriedaeth trwy gymryd amser gyda pherson, cael cyswllt rheolaidd, sicrhau cysondeb o ran ymarferydd sy'n anelu at ddiwallu anghenion a fynegi



8 Addysg a Sigiliau Angenrheidiol

8.1 Dylai clinigwyr sy'n darparu gwasanaethau Cynhwysiant fyfyrion ar eu hanghenion dysgu mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn a sicrhau bod y rheini'n cael eu trafod yn y gwerthusiad ac yr eir i'r afael â nhw drwy eu cynllun datblygiad personol.

8.2 Rhaid i staff clinigol gynnal a diweddarau gwybodaeth am y materion iechyd a gofal cymdeithasol a wynebir gan y rhai sydd wedi'u hallgáu'n draddodiadol gan roi sylw arbennig i ddiogelu, defnyddio sylweddau, iechyd meddwl a straen trawmatig, clefydau heintus, a chlefydau cronig nas rheolir.

8.3 Dylai comisiynwyr ac arweinwyr gwasanaethau ystyried a chefnogi anghenion addysg a hyfforddiant aelodau tîm. Dylai'r addysg a'r hyfforddiant gwmpasu'r meysydd parth eang canlynol:

- Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
- Cyfathrebu
- Cydweithio
- Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Ymddygiad Personol

8.4 Cefnogi hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig i weithwyr meddygol proffesiynol a gweithwyr iechyd perthynol i ddatblygu cysylltiadau â chyrff proffesiynol sy'n hyrwyddo Gofal Iechyd Cynhwysiant fel dewis gyrfa deniadol i staff.

9 Llywodraethau Clinigol

9.1 Rhaid i wasanaethau gael prosesau cadarn i sicrhau ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth. Rhaid i hyn gynnwys adolygiadau rheolaidd o:

- Brofiad defnyddwyr gwasanaeth ac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd
- Pryderon, cwynion a chanmoliaeth gan gleifion
- Achosion a fu bron â digwydd a digwyddiadau arwyddocaol
- Archwiliadau clinigol
- Cofrestr Risg Gwasanaeth

9.2 Mae'n bosibl y bydd sefydliadau sy'n cynnal adolygiadau gwasanaeth am ddefnyddio'r Offeryn Hunanasesu Iechyd Cynhwysiant i archwilio ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth³. Mae darparwyr gwasanaeth yn cwblhau templed hunanasesu yn erbyn 9 o werthoedd craidd y Safonau. Gellir dilyn hyn gan ymweliad arfarnu gan gymheiriaid - gan glinigwyr, defnyddiwr gwasanaeth a chymedrolwr cyfadran - sy'n graddio'r practis fel un sy'n "ddyheadol", "yn cyflawni" neu'n "rhagorol" yn erbyn pob un o'r gwerthoedd.

10 Canlyniadau Gwasanaeth Allweddol / Safonau Archwiliadwy a Awgrymir gan Safonau'r Llwyr / Cyfadran:

10.1 Nid yw'r mesurau a ddisgrifir yn rhestr gyflawn. Bydd angen gwneud addasiadau yn seiliedig ar ddemograffeg a gwasanaethau penodol mewn ardaloedd lleol.

10.2 Gwybodaeth sydd ei hangen i reoli'r gwasanaeth:

³ [Crosso i Offeryn Archwilio Iechyd Cynhwysiant VCSE! \(cynhwysiant-iechyd.org\)](http://Crosso%20i%20Offeryn%20Archwilio%20Iechyd%20Cynhwysiant%20VCSE%20(cynhwysiant-iechyd.org))



- a. Nifer yr unigolion sydd wedi'u cofrestru a'u cefnogi ym mhob grŵp defnyddwyr gwasanaeth gan ddefnyddio codau y cytunwyd arnynt ar gyfer grwpiau cynhwysiant penodol.
- b. Nifer yr unigolion a welwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
- c. Nifer yr unigolion a gofrestrwyd yn barhaol.
- d. Nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru dros dro.
- e. Demograffeg cleifion wedi'u gwirio ac unrhyw rifau GIG lluosog wedi'u cyfuno.
- f. Dogfennaeth y perthynas agosaf a sut orau i gysylltu â'r claf gan gynnwys unrhyw gyfeiriad 'dan ofal'.
- g. Gwlad geni, ethnigrwydd ac iaith a siaredir wedi'u dogfennu a'u codio.
- h. Lefelau llythrennedd.
- i. Codio statws tai.
- j. Dogfennaeth o statws mewnfudo megis ffoadur sy'n 'ceisio lloches', heb ei ddogfennu neu 'ddim hawl i arian cyhoeddus' fel dangosydd o fregusrwydd posibl.
- k. Nifer y cyfarfodydd adolygu aml-asiantaeth a fynychwyd.
- l. Gwasanaethau cyfieithu yn cael eu cynnig fel mater o drefn.
- m. Gwybodaeth yn cael ei darparu mewn ieithoedd gwahanol.
- n. Clinigau allgymorth mewn lleoliadau addas lle mae'r boblogaeth darged yn debygol o fod yn e.e., swyddfeydd prawf, tai dros dro, canolfannau galw heibio, safleoedd teithwyr
- o. Allgymorth pendant ar gyfer unigolion nad ydynt yn ymgysylltu sy'n defnyddio rhybuddion Iechyd Meddwl a Diogelu ar gyfer oedolion nad ydynt yn mynychu apwyntiadau neu sy'n gwrthod gofal
- p. Myfyrio ar y safonau ar gyfer grŵp penodol
- q. Clinigau galw heibio.

10.1 Nid yw'r mesurau a ddisgrifir yn rhestr gyflawn. Bydd angen gwneud addasiadau yn seiliedig ar ddemograffeg a gwasanaethau penodol mewn ardaloedd lleol.

10.3 Dangosyddion Ansawdd:

- a. Nifer neu ganran yr apwyntiadau a ddarparwyd ar yr un diwrnod ag y gofynnwyd amdanynt.



- b. Pob aelod o staff wedi'i hyfforddi mewn gofal trawma/sydd wedi'i lywio gan seicoleg.
- c. Cleifion yn cael eu gweld mewn amgylcheddau sydd wedi'u llywio gan seicoleg.
- d. Cydleoli gwasanaethau partner
- e. Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd wrth gynllunio a gwerthuso
- f. Cyfran yr achosion sydd â chynllun gofal personol wedi'i gofnodi gan gynnwys atgyfeiriadau a wneir i wasanaethau statudol a sefydliadau trydydd sector.
- g. Y nifer sy'n cael sgrinio arferol; canran yr unigolion sydd wedi ymgymryd â sgrinio'r fron, serfigol, y coluddyn a'r retina fel y cynghorir.
- h. Nodi a rheoli clefydau cronig yn weithredol
- i. Cyfran y llwyth achosion a ryddheir i gofrestrriad mewn gwasanaethau GMS cyffredinol bob blwyddyn gyda chrynodeb rhyddhau yn cael ei gwblhau a'i lanlwytho i Borth Clinigol Cymru
- j. Cyfran yr amserlenni imiwneiddio a gwblhawyd gan gynnwys imiwneiddiadau dal i fyny ac eraill fel y bo'n briodol, e.e. Hepatitis B, Ffliw ac ati.
- k. Nifer yr unigolion a gafodd adolygiad iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- l. Cyfran yr unigolion a sgriniwyd ar gyfer BBV a'r gyfran a oedd yn bositif.
- m. Cyfran yr unigolion a sgriniwyd ar gyfer STI a'r gyfran a oedd yn bositif.
- n. Cyfran yr unigolion a sgriniwyd ar gyfer TB Cudd a Gweithredol a'r gyfran sy'n bositif.
- o. Cyfran yr unigolion sy'n defnyddio opiadau sy'n cael therapi amnewid opiadau
- p. Nifer yr unigolion sy'n derbyn dull atal cenhedlu hir-weithredol cildroadwy
- q. Symleiddio llwybrau gofal e.e. gofal iechyd y geg

10.4 Canlyniadau Eilaidd:

Gellir dewis y mesurau canlyniadau hyn i gefnogi cynlluniau gofal personol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Maent yn dangos effaith ehangach gwasanaeth iechyd cynhwysiant y tu hwnt i fesuriadau canlyniadau cysylltiedig ag iechyd.

Mae'r canlyniadau eilaidd yn cynnwys:

- 1) **Perthasoedd Iach** gyda theulu, ffrindiau a chyfoedion. Yn gysylltiedig â'r gymuned leol. Ddim yn teimlo'n ynysig.
- 2) **Teimlo'n Ddiogel** rhag cam-drin emosynol neu gorfforol yn y cartref, llety a'r amgylchedd
- 3) **Annibyniaeth** a rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd gyda sgiliau rheoli arian a sgiliau ymarferol i fyw'n annibynnol.
- 4) **Cymryd rhan** mewn gweithgaredd ystyrion sy'n cyfrannu at les.
- 5) Rheolaeth weithredol o **iechyd corfforol** gan gynnwys y gallu i gael mynediad at ofal iechyd



corfforol.

- 6) **Rheoli effaith dibyniaeth/defnydd o sylweddau** i leihau niwed cysylltiedig a chael cymorth i wneud hyn lle bo angen.
- 7) **Rheoli iechyd meddwl a lles cadarnhaol**, optimistiaeth a gwydnwch i ymdopi â straen o ddydd i ddydd.

Gellir mesur y canlyniadau uchod ar raddfa Likert 1-5 syml:

- 1) Byth
- 2) Anaml
- 3) Weithiau
- 4) Yn aml

11 Adolygiadau Gwasanaethau

Dylid cynnal adolygiadau rheolaidd o ddarpariaeth a chanlyniadau. Bydd ffocws ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth a phroffesiynol yn helpu i amlygu nodau cyffredin yr holl asiantaethau i leihau annhegwch a gwella iechyd y boblogaeth. Dylai adolygiadau cydweithredol gynnwys: -

- Tystiolaeth o gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio a gwerthuso gwasanaethau
- Crynodeb o ddatblygiadau gwasanaeth
- Canlyniadau gwasanaeth
- Aseiad rheolaidd o fylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth ac adborth i'r Grwpiau Cynllunio Traws-Glwstwr i hysbysu'r gofrestr risg leol a gwelliant/datblygiad gwasanaeth parhaus



Atodiad 1: Anghenion cymhleth sy'n gofyn am Ddarpariaeth Gwasanaethau Arbenigol a/neu Reoli Achosion Cymhleth

1. Pobl sy'n profi Digartrefedd ac sydd wedi'u hallgáu'n lluosog

- Diffinnir Digartrefedd Allgáu Lluosog (MEH) fel: person sy'n ddigartref ac sy'n profi un neu fwy o'r parthau canlynol o allgáu cymdeithasol dwfn:
- Gofal sefydliadol (carchar, awdurdod lleol)
- Camddefnyddio sylweddau
- Gweithgareddau diwylliant stryd (yfed ar y stryd, cardota, dwyn o siopau er mwyn goroesi neu waith rhyw)

2. Unigolion sy'n gadael y carchar

- Unigolion sy'n mynd trwy gylch rheolaidd o dderbyn a rhyddhau o ystadau diogel gyda llety sy'n newid yn gyflym o dan dimau prawf dedfrydu tymor byr
- Unigolion sy'n gadael y carchar ac sy'n cael eu rhyddhau i ddigartrefedd / llety digartrefedd dros dro rheng flaen.
- Unigolion sy'n gadael y carchar sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Digartref a'r Porth Personau Sengl

3. Pobl sy'n ceisio lloches a Ffoaduriaid (Sgrinio iechyd y cyhoedd ac iechyd cychwynnol i'w gynnig i bawb)

- Unigolion sy'n ceisio lloches sydd o dan adran 98 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Unigolion sy'n ceisio lloches sydd o dan adran 95 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 ond nad ydynt yn ddigon sefydlog neu'n rhy agored i niwed i allu llywio'r GMS traddodiadol, e.e., y rheini â chlefyd heintus actif sydd heb fynyachu apwyntiadau ac sy'n peri risg iddynt hwy eu hunain a risg i iechyd y cyhoedd, y rheini sydd ag iechyd meddwl sy'n gwaethygu sy'n gysylltiedig â'r system lloches ac sydd angen eu cydleoli â phartneriaid gweithredol lluosog, sy'n cysylltu â'r sawl sy'n ymwneud â'r sector cymorth gweithredol, y rheini sy'n ymwneud â phroblemau allanol lluosog.
- Ceiswyr lloches anghenus
- Unigolion â 'Dim hawl i arian cyhoeddus' oherwydd bod eu cais am loches wedi'i wrthod, ond nad ydynt wedi'u dychwelyd i'w gwlad eu hunain.

4. Pobl sy'n gwneud gwaith rhyw risg uchel (gallant fod yn unigolion wedi'u masnachu y mae eu 'gwarcheidwad' wedi cymryd eu pasbort oddi wrthynt):

- Y rhai sy'n gwneud gwaith rhyw ar y stryd.
- Y rhai sy'n gweithio mewn parlyrau rhyw gyda statws mewnfudo aneglur ac sy'n ofn yr awdurdodau/Swyddfa Gartref
- Gweithwyr rhyw sy'n profi digartrefedd.
- Gweithwyr rhyw gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau

5. Roma, Sipsiwn a Theithwyr:

- Y rheini sydd â ffordd o fyw symudol sy'n gweryslla am gyfnodau byr o amser cyn symud ymlaen ac yn profi ofn gwahaniaethu, stigma gan awdurdodau a'r cyhoedd.



Atodiad 2: Pecyn Cymorth Hunanasesu Tegwch Iechyd ac Iechyd Cynhwysiant ar gyfer Gofal Sylfaenol

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i helpu'r rhai sy'n gweithio mewn neu gyda gofal sylfaenol i ystyried anghydraddoldebau ym mhob maes cynllunio a/neu weithredu gwasanaethau, rhaglenni, neu ymyriadau penodol ac wedi'u targedu.


Gofal sylfaenol yn seiliedig ar leoedd; offeryn gwasanaethau iechyd cynhwysiant ar gyfer cydweithwyr sy'n gyfrifol am gynllunio, darparu, neu gomisiynu gwasanaethau iechyd cynhwysiant.

Atodiad 3: Codio Clinigol Gwasanaethau Iechyd Cynhwysiant

Categori	Opsiynau codio	Sylwadau
Yn profi digartrefedd neu mewn perygl difrifol o fod yn ddigartref	<p>Y cod ar gyfer Digartref: 13D.11</p> <p>Y cod ar gyfer Syrffiwyr Soffas/NFA: * 13D7</p>	<p>Nid oes cod ar gyfer 'mewn perygl o ddigartrefedd'.</p> <p>Gall fod dryswch gan nad yw digartrefedd yn golygu cysgu allan</p> <p>A ellid eu codio fel pobl ddigartref os ydynt mewn llety dros dro/hostel a'r rhai sy'n syrffio soffas neu'n cysgu allan wedi'u codio felly?</p>
Pobl sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol	<p>Ar brawf: *03A5</p> <p>Dedfryd Carchar: 13HQ.</p> <p>Problemau yn ymwneud â rhyddhau o'r carchar: *ZV4J5</p>	<p>Ni fydd pob un ar brawf... efallai mai 'dedfryd o garchar' fyddai'r un orau gan ei fod yn cwmpasu popeth?</p>
Pobl sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid, gweithwyr mudol bregus, ac ymfudwyr heb eu dogfennu.	<p>Ffoadur: 13ZB.00</p> <p>Ceisiwr Lloches: 13ZN.00</p> <p>Dioddefwr Masnachu Pobl: *14XF.</p> <p>Oedolyn Agored i Niwed: *133P.</p>	<p>Nid oes unrhyw godau ar gyfer gweithiwr mudol bregus neu fudwr heb ei ddogfennu, a ellid eu codio fel rhai sy'n agored i niwed?</p>
Person sy'n gwneud gwaith rhyw	<p>Gweithiwr rhyw *QAL</p>	<p>Caiff hwn ei godio fel galwedigaeth yn benodol; yr opsiwn arall yw 'puteiniaid', sydd ddim yn derm addas i'w ddefnyddio!</p>
Roma, Sipsiwn neu Deithwyr	<p>Grŵp Ethnig Roma: *9TC..Teithiwr/Sipsi: 9TC..</p>	<p>Byddai'n dibynnu ar sut mae'r claf yn uniaethu.</p>



Atodiad 4: Adnoddau Gwasanaeth Iechyd Cynhwysiant

<p>Dosbarthiad grwpiau bregus</p> <p>https://scanmail.trustwave.com/?c=261&d=-PG44sS2TXFSGiWcfGrn5eSCH9tX4jeDX98niAozfA&u=https%3a%2f%2fwww%2encbi%2enlm%2enih%2ego v%2fbooks%2fNBK435787%2f</p> <p>Exploring levers and barriers to accessing primary care for marginalised groups and identifying their priorities for primary care provision: a participatory learning and action research study International Journal for Equity in Health Testun Llawn (biomedcentral.com)</p>
<p>Digartrefedd</p> <p>Trosolwg Integrated health and social care for people experiencing homelessness Canllaw NICE Integrated health and social care for people experiencing homelessness Pynciau Iechyd A i Y CKS NICE</p> <p>https://phw.nhs.wales/publications/publications1/health-of-individuals-with-lived-experience-of-homelessness-in-wales-during-the-covid-19-pandemic-report/</p> <p>https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/rhoi-di-wedd-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026.pdf (llyw.cymru)</p>
<p>Rhyddhau o'r carchar</p> <p>Microsoft Word - PCN manuscript (qub.ac.uk) Who can help? (prisonreformtrust.org.uk)</p>
<p>Ffoaduriaid</p> <p>HEAR-Report-ES-English-FINAL.pdf (phwwhocc.co.uk) Noddfa Iechyd a lles (llyw.cymru) Caring for trafficked persons https://publications.iom.int/system/files/pdf/ct_handbook.pdf</p>
<p>Camddefnyddio sylweddau</p> <p>https://sbuhb.nhs.wales/about-us/key-documents-folder/quality-and-safety-committee-papers/quality-safety-committee-september-2020/3-4-appendix-1-pdf/</p>
<p>Cymunedau teithwyr</p> <p>teithio-i-iechyd-well.pdf (llyw.cymru)</p>
<p>Gofal sy'n ystyriol o Drawma</p> <p>Mae'r Fframwaith Ystyriol o Drawma yn rhoi diffiniad Cymru o ddull sy'n ystyriol o drawma Yr Iaith Gymraeg: darparu gwasanaethau yn y Gymraeg i grwpiau agored i niwed</p>
<p> Welsh Language needs for volume...</p>



Atodiad 5: Dyfyniadau o ganllawiau NICE a'r Gyfadran Iechyd Cynhwysiant

BLWCH 1 - GWASANAETHAU CYFFREDINOL:

Dylai pob ymarferydd gofal sylfaenol ym mhob lleoliad:

- Ddarparu gofal o'r un safon ac ansawdd ag eraill yn y boblogaeth gyffredinol.
- Bod yn ymwybodol o effaith eu profiad a'r problemau iechyd sy'n gyffredin.
- Hyrwyddo gwneud penderfyniadau ar y cyd.
- Ystyried darparu amgylchedd sydd wedi'i lywio gan seicoleg a gofal sy'n ystyriol o drawma.
- Ystyried gallu'r person, ei hawliau i ymreolaeth a hunanbenderfyniad, ac unrhyw faterion diogelu.
- Cynnwys cyfoedion neu eiriolwyr fel y bo'n briodol.
- Cydnabod y bydd angen cymorth hirdymor i hybu adferiad, sefydlogrwydd, a

Safonau derbynfa gwasanaethau cyffredinol (gan gyfeirio at y Safonau ar gyfer Comisiynwyr a Defnyddwyr, Cyfadran Iechyd Cynhwysiant).

- Dylai derbynyddion fod yn hyrwyddwyr cleifion, gan sicrhau bod y cleifion mwyaf agored i niwed yn nalgylch practis yn gallu cael mynediad at ofal.
- Os nad oes gan glaf ID, ni ddylai hyn fod yn rhwystr i gofrestru. Ni ddylai cofrestriad gael ei wrthod oni bai bod rhestr practis yn cael ei chau neu os yw claf yn byw y tu allan i'r ardal a bod y practis yn teimlo na all ddarparu ar gyfer hyn. Dylid cofnodi pob gwrthodiad cofrestru, a dylid rhoi llythyr i'r claf yn tystio i'r gwrthodiad.
- Dylai derbynyddion ofyn yn rheolaidd a oes angen cymorth ar gleifion i lenwi ffurflenni, a rhoi cymorth yn ôl yr angen.
- Dylid nodi digartrefedd cyn gynted â phosibl yn y cofrestriad a'i gofnodi yn y cofnodion.
- Hyd yn oed os yw claf yn ddigartref ar y stryd, dylid gwneud pob ymdrech i gael cyfeiriad "dan ofal" a manylion cyswllt a manylion cyswllt brys, fel ar gyfer pob claf.
- Dylid gwneud pob ymdrech i gynorthwyo cleifion i allu cael a mynychu apwyntiadau yn hawdd. Dylid ystyried rhwystrau personol neu sefydliadol a all fodoli oherwydd materion iaith neu lythrennedd; problemau iechyd meddwl neu gaethiwed; diffyg mynediad at ffôn/credyd; neu anawsterau unigol, e.e. bod gan y claf gi na all ei adael.
- Dylid gwneud cleifion yn ymwybodol y gallant ddod â gweithwyr cymorth gyda nhw i apwyntiadau (a/neu gael eu cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth gan gymheiriaid fel y bo'n briodol).
- Dylid defnyddio gwasanaethau cyfieithu proffesiynol oni bai bod claf yn rhugl yn y Saesneg. Dylid defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn hytrach na theulu neu ffrindiau, a dylid defnyddio cyfieithu wyneb yn wyneb yn hytrach na chyfieithu ar y pryd dros y ffôn lle bynnag y bo modd.
- Dylid cynnig apwyntiadau hirach fel mater o drefn i bawb ag anawsterau cyfathrebu a/neu anghenion cymhleth.
- Dylai staff practis ddod yn gyfarwydd ag arferion diwylliannol cyffredin a geir ym mhoblogaeth y practis a datblygu protocolau practisau i ddarparu ar gyfer y rhain.
- Dylai taflenni cyfeirio at wasanaethau digartrefedd a gwasanaethau perthnasol eraill, mewn iaith syml, fod ar gael o fewn y practis.



Atodiad 6: Codau/disgrifiadau ar gyfer Digartrefedd

Yn gyfreithiol mae pedwar cyflwr o dai neu ddigartrefedd:

- Ddim yn ddigartref (h.y. bod gan yr unigolyn gartref)
- Digartref ond yn anghymwys (h.y. oherwydd statws mewnfudo).
- Mewn perygl o ddigartrefedd; a
- Digartref

Mae is-set o bobl ddigartref neu 'ddigartref ar y stryd' y gellid eu hystyried fel a ganlyn:

- Mewn perygl o ddigartrefedd (mae hyn yn cynnwys pobl yr aseswyd eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref [o fewn 56 diwrnod](#) (gweler tudalen 366 am eglurder). Gallai hefyd gynnwys pobl sy'n cael eu cefnogi gan Tai yn Gyntaf (sy'n aml yn ymddangos ag anghenion lluosog, cymhleth ac wedi profi cyfnodau sylweddol o gysgu allan ac, er eu bod mewn llety parhaol, yn dal i fod 'mewn perygl' oherwydd amgylchiadau)
- Digartref – mewn llety dros dro/argyfwng
- Digartref – digartref ar y stryd
- Digartref – syrffio soffas
- Digartref – digartref gartref



Atodiad 7: Geirfa

BBV	Feirws a Gludir yn y Gwaed
DNA	Heb fynychu
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
GMS	Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
MEH	Digartrefedd Allgáu Lluosog
MDT	Tîm Amlddisgyblaethol
MECC	Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif
OOH	Y tu allan i oriau
PCPG	Grŵp Cynllunio Traws-Glwstwr
RPB	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
STI	Haint a Drosglwyddir yn Rhywiol
TB	Twbercwlosis



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach

Working together
for a healthier Wales